Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1160 (Cy. 189) (C. 56)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym weddill darpariaethau Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") ac yn gwneud darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaethau penodol i rym.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2025 ar 1 Ionawr 2026—

(a) adran 1, sy'n diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") drwy fewnosod Rhan newydd 2A sy'n gwneud darpariaeth ynghylch offerynnau statudol Cymreig a gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru;

(b) adran 3, sy'n diwygio Deddf 2019 drwy fewnosod Rhan newydd 2B sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi, cadw, rhifo a dosbarthu Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru;

(c) adran 5, sy'n diwygio Deddf 2019 drwy fewnosod adran newydd 42A sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau newydd 2A a 2B o Ddeddf 2019;

(d) adran 6, sy'n diwygio adran 2 o Ddeddf 2019 fel bod rhaid i raglenni i wella hygyrchedd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyfraith Cymru gynnwys cynigion ar gyfer cywiro unrhyw wallau neu ddatrys unrhyw amwysedd yng nghyfraith Cymru;

(e) adran 8 ac Atodlen 3, sy'n cynnwys diwygiadau i ddeddfiadau presennol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i Rannau newydd 2A a 2B o Ddeddf 2019.

Mae erthygl 3 yn darparu nad yw darpariaethau penodol o Ran 2A o Ddeddf 2019 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn 1 Ionawr 2026 neu a gynhwysir mewn offeryn statudol a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar ffurf ddrafft cyn y dyddiad hwnnw, ac mae'n arbed darpariaethau cyfatebol o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 ("Deddf 1946") mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth honno.

Mae erthygl 4 yn darparu nad yw darpariaethau penodol o Ran 2B o Ddeddf 2019 yn gymwys i ddeddfwriaeth Cymru a wnaed cyn 1 Ionawr 2026, yn arbed darpariaethau cyfatebol o Ddeddf 1946 a Rheoliadau Offerynnau Statudol 1947 mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth honno, ac yn sicrhau bod yr amddiffyniad o beidio â chyhoeddi o dan adran 37S(2) o Ddeddf 2019 yn cynnwys achosion pan na fo cyhoeddi o dan adran 2(1) o Ddeddf 1946.

Mae erthygl 5 yn ei gwneud yn glir nad yw adran 2(3)(e) o Ddeddf 2019 (fel y'i mewnosodir gan adran 6 o Ddeddf 2025) yn gymwys ond i raglenni i wella hygyrchedd cyfraith Cymru a lunnir ar gyfer tymhorau Senedd Cymru sy'n dechrau ar ôl 1 Ionawr 2026.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1160 (Cy. 189) (C. 56)

## Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025

*Gwnaed* *4 Tachwedd 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 9(4) a (5) o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025(**1**):

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1946" ("*the 1946 Act*") yw Deddf Offerynnau Statudol 1946(**2**);

ystyr "Deddf 2019" ("*the 2019 Act*") yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**3**);

ystyr "Deddf 2025" ("*the 2025 Act*") yw Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

(**1**) 2025 dsc 3.
(**2**) 1946 p. 36.
(**3**) 2019 dccc 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2026

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2025 i rym ar 1 Ionawr 2026—

(a) adran 1 (Rhan newydd 2A o Ddeddf 2019);

(b) adran 3 (Rhan newydd 2B o Ddeddf 2019);

(c) adran 5 (craffu ar ôl deddfu);

(d) Adran 6 (gweithgareddau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru);

(e) adran 8 ac Atodlen 3 (diwygiadau canlyniadol).

### Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru

**3.**—(1) Yn yr erthygl hon ystyr "is-ddeddfwriaeth cyn-gychwyn" yw is-ddeddfwriaeth—

(a) a wnaed cyn 1 Ionawr 2026, neu

(b) a gynhwysir mewn offeryn statudol drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Nid yw adrannau 37C i 37H o Ddeddf 2019 nac Atodlenni 1A i 1C iddi yn gymwys i is-ddeddfwriaeth cyn-gychwyn.

(3) Mae adrannau 4(1), 5 i 7 ac 11A(4) o Ddeddf 1946(**1**) yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth cyn-gychwyn fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn 1 Ionawr 2026, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf 2025.

(4) Mae adran 40 o Ddeddf 2019 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth cyn-gychwyn fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn 1 Ionawr 2026, er gwaethaf paragraff 14 o Atodlen 3 i Ddeddf 2025.

### Cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru

**4.**—(1) Nid yw adrannau 37N i 37R o Ddeddf 2019 yn gymwys i offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1 Ionawr 2026.

(2) Yn adran 37S(2) o Ddeddf 2019, mae'r cyfeiriad at gyhoeddi yn unol ag adran 37Q i'w ddarllen, mewn perthynas ag offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1 Ionawr 2026, fel cyfeiriad at gyhoeddi o dan adran 2(1) o Ddeddf 1946.

(3) Nid yw adrannau 37U na 37W o Ddeddf 2019 yn gymwys i offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1

(**1**) Diwygiwyd adran 4(1) gan adran 18 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (p. 4), a pharagraff 4(2) o Atodlen 6 iddi, a mewnosodwyd adran 11A gan adran 160 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 3 o Atodlen 10 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ionawr 2026 na Deddf gan Senedd Cymru sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol cyn 1 Ionawr 2026.

(4) Nid yw adrannau 37X na 37Y(1) o Ddeddf 2019 yn gymwys i offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1 Ionawr 2026.

(5) Nid yw adran 37Z o Ddeddf 2019 yn gymwys i is-offeryn Cymreig (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 3(2) o Ddeddf 2019) a wnaed cyn 1 Ionawr 2026.

(6) Nid yw adran 37Z1 o Ddeddf 2019 yn gymwys i offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1 Ionawr 2026.

(7) Er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf 2025, mae'r darpariaethau a ganlyn yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag offeryn statudol Cymreig a wnaed cyn 1 Ionawr 2026 fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn 1 Ionawr 2026—

(a) adran 2 o Ddeddf 1946(**1**) a rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Offerynnau Statudol 1947(**2**);

(b) adran 3(1) o Ddeddf 1946(**3**) a rheoliadau 9 a 10(2) o'r Rheoliadau hynny.

### Gweithgareddau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

**5.** Nid yw'r diwygiad a wneir gan adran 6 o Ddeddf 2025 yn gymwys i'r rhaglen a lunnir o dan adran 2(1) o Ddeddf 2019 ar gyfer tymor Senedd Cymru y daw adran 6 i rym ynddo.

*Huw Irancca Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Tachwedd 2025

(**1**) Diwygiwyd gan adran 1(1)(a) o Ddeddf Offerynnau Statudol (Llunio a Gwerthu) 1996 (p. 54).
(**2**) O.S. 1948/1.
(**3**) Diwygiwyd gan adran 1(1)(a) a (b) o Ddeddf Offerynnau Statudol (Llunio a Gwerthu) 1996.